

Carbamazepine

(Tegretol[®], Tegretol Myddau Dros Gyfnod Hir[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth

Pam mae presgripsiwn am carbamazepine wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio carbamazepine ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd carbamazepine?

Mae carbamazepine ar gael fel tabledi neu hylif. Mae tabled "rhyddhau'n araf" ar gael hefyd. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 100-200mg unwaith neu ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfch am gynyddu'r dos eto i uchafswm dos dyddiol arferol o 1200mg y dydd. Gallwch gymryd carbamazepine gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o carbamazepine, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o carbamazepine gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys teimladau cysglyd, y bendro, brech, cur pen/pen tost ac anhwylder ar y stumog. Gallwch hefyd weld newidiadau yn y cof, y golwg neu newidiadau o ran meddwl. Yn anaml iawn, gall carbamazepine achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed, iau/afu a churiad y galon. Mae'r risg o gael brech gyda carbamazepine yn uwch o lawer ymhlith pobl o dras Tsieinaidd.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o frech, pothellu neu newidiadau eraill ar y croen, wserau yn y geg, dolur gwddf, twymyn, cleisio neu waedu anesboniadwy, dychlamiadau'r galon, melynau ar y croen neu yng ngwyn y llygaid, poen yn y cymalau, cyhyrau neu'r ardal gerllaw'r stumog, gan y gall y rhain fod yn arwyddion o broblem fwy difrifol.

Mae gan nifer fach o bobl alergedd i carbamazepine. Dylech ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os ydych yn datblygu arwyddion fel anhawster anadlu, brech neu chwyddo ar yr wyneb neu'r gwefusau.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

A fydd angen i mi gael unrhyw brofion arbennig?

Efallai y bydd eich meddyg yn trefnu i chi gael profion gwaed cyn i chi ddechrau triniaeth gyda carbamazepine ac yn ystod y driniaeth. Os gwneir hyn, y bwriad yw gwirio nad yw'r carbamazepine yn achosi unrhyw broblemau i'r gwaed neu'r iau/afu. Gall fod angen prawf gwaed genetig (ar gyfer pennu grŵp HLA) ar bobl o dras Tsieinaidd cyn dechrau cymryd carbamazepine.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda carbamazepine?

Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw bod rhai meddyginiaethau'n rhyngweithio gyda carbamazepine, gan gynnwys dulliau hormonaidd o atal cenhedlu (i gael mwy o wybodaeth, gweler isod o dan y nodyn arbennig i fenywod).

Gofynnwch i'ch meddyg teulu neu arbenigwr epilepsi am gyngor.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd carbamazepine?

Dylech yfed cyn lleied o alcohol â phosibl am ei fod yn debygol o waethygu rhai sgîl-ffeithiau carbamazepine, fel y bendro a blinder. **Rhybuddion arbennig:**

Alergedd: Ni ddylech gymryd carbamazepine os oes gennych alergedd i feddyginiaethau tebyg, e.e. oxcarbazepine (Trileptal®), eslicarbazepine (Zebinix®); neu rai meddyginiaethau a ddefnyddir i drin iselder neu boen yn y nerfau, fel amitriptyline.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os ydych wedi dioddef erioed o gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eich calon, iau/afu, gwaed neu fêr esgyrn, neu os oes porffyrria gennych, gan ei bod yn bosibl na fydd carbamazepine yn addas i chi.

Brandiau gwahanol: argymhellir eich bod yn cadw at yr un brand o carbamazepine gan y gall fod mân wahaniaethau yn y gwahanol frandiau sydd ar gael. Os ydych yn pryderu, siaradwch â'ch meddyg neu'ch fferylllydd.

Nodyn arbennig i fenywod.

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, ***peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth*** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Dulliau Atal Cenhedlu Hormonaidd: Mae carbamazepine yn debygol o leihau effeithiolrwydd dulliau atal cenhedlu hormonaidd. O ganlyniad, gall fod angen newid y dos o'r bilsen atal cenhedlu gyfunol, a gall fod angen rhoi pigladau depo atal cenhedlu bob deng wythnos yn lle bob deuddeng wythnos. Dylid defnyddio dulliau atal cenhedlu rhwystrol ychwanegol hefyd, o leiaf tan fod tri mis olynol wedi mynd heibio heb unrhyw waedu ysbeidiol.

Mae carbamazepine yn debygol o atal y pats atal cenhedlu, y bilsen atal cenhedlu progesteron yn unig a mewnblianiad atal cenhedlu rhag gweithio. Mae'r dulliau hyn yn anaddas felly os ydych hefyd yn cymryd carbamazepine.

Mae carbamazepine hefyd yn rhyngweithio gyda'r bilsen atal cenhedlu frys, gan olygu bod angen dosys uwch o'r bilsen atal cenhedlu frys. Mae hwn ar gael ar bresgripsiwn yn unig ac ni allwch ei brynu o'ch fferyllfa.

Gallwch gael mwy o wybodaeth gan eich meddyg teulu, eich arbenigwr epilepsi a'r sefydliadau Epilepsy Action a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi (gweler manylion y wefan isod).

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.corguk

Medi 2010

Gabapentin (Neurontin[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth

Pam mae presgripsiwn am gabapentin wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio gabapentin ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd gabapentin?

Mae gabapentin ar gael fel tabledi neu fel capsïwlau. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 300mg unwaith ar y diwrnod cyntaf, dwywaith ar yr ail ddiwrnod, yna tair gwaith y dydd o'r trydydd diwrnod. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfch am gynyddu'r dos eto i uchafswm dos dyddiol arferol o 3 600 mg y dydd. Gallwch gymryd gabapentin gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o gabapentin, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o gabapentin gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys y bendro, teimladau cysglyd, cur pen/pen tost ac anhwylder ar y stumog. Weithiau gall problemau ddigwydd gyda'r cof, cydbwysedd neu'r golwg. Yn anaml iawn, gall gabapentin effeithio ar y pancreas neu'r iau/afu. Dylech ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os byddwch yn datblygu unrhyw arwyddion fel melynau ar y croen ac yng ngwyn y llygaid, poen cyson yn y stumog a chfyg.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda gabapentin?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferylllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw y gall rhai meddyginiaethau effeithio ar gabapentin.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd gabapentin?

Dylech yfed cyn lleied o alcohol â phosibl am ei fod yn gallu gwaethygu rhai sgîl-ffeithiau gabapentin, fel y bendro a blinder.

Rhybuddion arbennig:

Alergedd: Mae capsïwlau gabapentin yn cynnwys lactos. Ni ddylech gymryd y capsïwlau os oes gennych anoddefiad lactos.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes diabetes gennych, gan y gall gabapentin effeithio ar lefelau siwgr y gwaed.

Nodyn arbennig i fenywod

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, ***peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth*** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Lacosamide (Vimpat®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am lacosamide wedi'i roi i mi?

Mae lacosamide yn cael ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd lacosamide?

Mae lacosamide ar gael fel tabledi neu hylif. Y dos cychwynnol arferol yw 50mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfych am gynyddu'r dos eto i uchafswm dos arferol o 200mg ddwywaith y dydd. Gallwch gymryd lacosamide gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o lacosamide, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o lacosamide gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Y sgîl-ffeithiau mwyaf cyffredin yw'r bendro, cur pen/pen tost, cyfog, rhwymedd ac aflonyddwch ar y golwg. Gall sgîl-ffeithiau ysgwyd, cosi ac aflonyddwch meddwl, y cof a chydbwysedd ddigwydd hefyd.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda lacosamide?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Mae meddyginiaethau a gymerir i atal aflonyddwch ar rythm y galon yn arbennig o bwysig.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd lacosamide?

Gall alcohol waethygu rhai sgîl-ffeithiau lacosamide, fel y bendro a blinder. Fe'ch cynghorir i beidio ag yfed alcohol felly tra'ch bod yn cymryd lacosamide. Os ydych yn dewis yfed alcohol dylech cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Alergeddau: Ni ddylech gymryd tabledi lacosamide os oes gennych alergedd i soia neu bysgnau.

Gall eich meddyg drefnu i chi gael prawf olrhain y galon (ECG) i weld a yw dargludiad eich calon (cyfwng PR) yn normal, gan y gall lacosamide ddod â phroblemau dargludiad sydd eisoes yn bodoli i'r amlwg.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os ydych wedi dioddef o unrhyw gyflyrau'r galon, gan ei bod yn bosib na fydd triniaeth â lacosamide yn briodol yn yr achos hwn. Nid yw lacosamide ar ffurf hylif yn addas i bobl â ffenylcetonwria.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Lamotrigine

(Lamictal®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am lamotrigine wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio lamotrigine ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd lamotrigine?

Mae lamotrigine ar gael fel tabledi (gan gynnwys tabledi gwasgaradwy neu dabledi i'w cnoi). Bydd y dos cychwynnol i oedolion yn dibynnu ar a ydych yn cymryd meddyginiaethau eraill sy'n rhyngweithio gyda lamotrigine. Mae dosys cychwynnol yn amrywio o 12.5mg i 50mg y dydd. Gall eich meddyg gynyddu'r dos wedyn. Gallwch gymryd lamotrigine gyda bwyd neu heb fwyd. Os methwch ddos o lamotrigine, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwrch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o lamotrigine gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i aildechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys teimladau cysglyd, y bendro, cur pen/pen tost ac anhwylder ar y stumog. Gallwch hefyd weld newidiadau yn y cof, y golwg, cydsymud neu newidiadau o ran meddwl. Gall lamotrigine hefyd achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed a'r iau/afu. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o frech, pothellu neu newidiadau eraill ar y croen, wserau yn y geg, dolur gwddf, twymyn, cleisio neu waedu anesboniadwy neu felynu yng ngwyn y llygaid, gan y gall y rhain fod yn arwyddion o broblem fwy difrifol.

Mae gan nifer fach o bobl alergedd i lamotrigine. Dylech ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os ydych yn datblygu arwyddion fel tymheredd uchel, neu chwyddo ar yr wyneb, y chwarennau neu'r gwefusau.

Mae rhai pobl wedi sôn am newidiadau mewn hwyliau, gan gynnwys iselder, fel sgîl-ffaith, a dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda lamotrigine?

Rydym yn gwybod bod lamotrigine yn rhyngweithio gyda rhai meddyginiaethau eraill, gan gynnwys rhai meddyginiaethau gwrthepileptig eraill a'r bilsen atal genhedlu. Gall lamotrigine leihau effeithiolrwydd y bilsen atal cenhedlu progesteron yn unig (Mini-Pill) a gall gynyddu'r risg y byddwch yn mynd yn feichiog felly. Ni ddylai fod problem gydag effeithiolrwydd y bilsen atal cenhedlu gyfunol. Hefyd, gall y bilsen atal cenhedlu gyfunol leihau faint o lamotrigine sydd yn y gwaed.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd lamotrigine?

Gall alcohol waethgu rhai sgîl-ffeithiau lamotrigine, fel y bendro a blinder. Os ydych yn yfed alcohol dylech yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Alergedd: Ni ddylech gymryd tabledi lamotrigine os oes gennych anoddefiad lactos. Nid yw'r tabledi i'w cnoi neu'r tabledi gwasgaradwy yn cynnwys lactos.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os ydych wedi dioddef erioed o gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eich arennau, neu os oes unrhyw feddyginiaethau eraill erioed wedi achosi i chi gael brech ar y croen, gan ei bod yn bosibl na fydd lamotrigine yn addas i chi.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Hyd yn oed mewn beichiogrwydd lle nad yw'r fam yn cymryd unrhyw feddyginiaethau, mae risg fach y bydd camffurfiad gan y baban. Gall y risg fod ychydig yn uwch os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban. Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Levetiracetam (Keppra[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth

Pam mae presgripsiwn am levetiracetam wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio levetiracetam ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd levetiracetam?

Mae levetiracetam ar gael fel tabledi neu hylif. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 250-500mg ddwywaith y dydd. Gall eich meddyg godi'r dos hwn wedyn i uchafswm dos dyddiol arferol o 1500mg ddwywaith y dydd. Gallwch gymryd levetiracetam gyda bwyd neu heb fwyd. Os methwch ddos o levetiracetam, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o levetiracetam gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i aildechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys y bendro, cur pen/pen tost, teimladau cysglyd, cyfog, dolur rhydd a magu pwysau. Weithiau gall cryndod, brech, poen yn y cyhyrau, newidiadau i'r cof, y golwg neu gydbwysedd ddigwydd hefyd. Yn anaml gall trawiadau ddigwydd yn amlach, neu gallwch gael anhwylderau'r gwaed neu'r iau/afu. Mae newidiadau mewn hwyliau gan gynnwys teimlo'n groendenau, newid mewn personoliaeth ac iselder wedi'u nodi fel sgîl-ffeithiau hefyd, a dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda levetiracetam?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd levetiracetam?

Nid yw effaith alcohol ar levetiracetam yn hysbys. Dylech geisio yfed cyn lleied o alcohol â phosibl tra byddwch yn cael triniaeth â levetiracetam.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn beichiogrwydd mewn mamau heb epilepsi y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Oxcarbazepine (Trileptal®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am oxcarbazepine wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio oxcarbazepine ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd oxcarbazepine?

Mae oxcarbazepine ar gael fel tabledi neu hylif. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 300mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyf am gynyddu'r dos eto i uchafswm dos dyddiol arferol o 2,400mg y dydd. Gallwch gymryd oxcarbazepine gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o oxcarbazepine, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o oxcarbazepine gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys teimladau cysglyd, brech, cur pen/pen tost ac anhwylder ar y stumog. Gallwch hefyd weld newidiadau mewn hwyliau, y cof, y golwg neu newidiadau o ran meddwl.

Yn anaml iawn, gall oxcarbazepine achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed, iau/afu a churiad y galon. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o'r fath, fel brech, pothellu neu newidiadau eraill ar y croen, wlsrau yn y geg, dolur gwddf, twymyn, cleisio neu waedu anesboniadwy, dychlamiadau'r galon, melynau ar y croen neu yng ngwyn y llygaid, neu unrhyw boen yn y cymalau, cyhyrau neu'r ardal gerllaw'r stumog.

Mae gan nifer fach o bobl alergedd i oxcarbazepine. Dylech ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os ydych yn datblygu arwyddion fel anhawster anadlu, brech neu chwyddo ar yr wyneb neu'r gwefusau.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

A fydd angen i mi gael unrhyw brofion arbennig?

Bydd eich meddyg yn trefnu i chi gael profion gwaed cyn i chi ddechrau triniaeth gydag oxcarbazepine ac yn ystod y driniaeth. Os gwneir hyn, y bwriad yw gwirio nad yw'r feddyginiaeth yn achosi unrhyw broblemau i'r gwaed neu'r iau/afu.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gydag oxcarbazepine?

Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw bod rhai meddyginiaethau'n rhyngweithio gydag oxcarbazepine, gan gynnwys dulliau hormonaidd o atal cenhedlu (i gael mwy o wybodaeth, gweler isod o dan y nodyn arbennig i fenywod).

Gofynnwch i'ch meddyg teulu neu arbenigwr epilepsi am gyngor.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd oxcarbazepine?

Mae'r gwneuthurwr yn cynghori y dylech osgoi alcohol os oes modd gan y gall waethygu rhai sgîl-ffeithiau oxcarbazepine, fel y bendro a blinder. Os ydych yn dewis yfed alcohol fe'ch cynghorir i yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Alergedd: Ni ddylech gymryd oxcarbazepine os oes gennych alergedd i feddyginiaethau tebyg fel carbamazepine (Tegretol®), ac eslicarbazepine (Zebinix®); neu rai meddyginiaethau a ddefnyddir i drin iselder neu boen yn y nerfau, fel amitriptyline.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os ydych wedi dioddef erioed o gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eich calon, iau/afu, gwaed neu fêr esgyrn, neu os oes porffyrria gennych, gan ei bod yn bosibl na fydd oxcarbazepine yn addas i chi.

Nodyn arbennig i fenywod.

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Dulliau Atal Cenhedlu Hormonaidd: Mae oxcarbazepine yn debygol o leihau effeithiolrwydd dulliau atal cenhedlu hormonaidd. O ganlyniad, gall fod angen newid y dos o'r bilsen atal cenhedlu gyfunol, a gall fod angen rhoi pigiadau depo atal cenhedlu bob deng wythnos yn lle bob deuddeng wythnos. Dylid defnyddio dulliau atal cenhedlu rhwystrol ychwanegol hefyd, o leiaf tan fod tri mis olynol wedi mynd heibio heb unrhyw waedu ysbeidiol.

Mae oxcarbazepine yn debygol o atal y pats atal cenhedlu, y bilsen atal cenhedlu progesteron yn unig a mewnblianiad atal cenhedlu rhag gweithio. Mae'r dulliau hyn yn anaddas felly os ydych hefyd yn cymryd oxcarbazepine.

Mae oxcarbazepine hefyd yn rhyngweithio gyda'r bilsen atal cenhedlu frys, gan olygu bod angen dosys uwch o'r bilsen atal cenhedlu frys. Mae hwn ar gael ar bresgripsiwn yn unig ac ni allwch ei brynu o'ch fferylfa.

Gallwch gael mwy o wybodaeth gan eich meddyg teulu, eich arbenigwr epilepsi a'r sefydliadau Epilepsy Action a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi (gweler manylion y wefan isod).

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Phenytoin

(Epanutin®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am phenytoin wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio phenytoin ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd phenytoin?

Mae phenytoin ar gael fel tabledi, capsïwlau neu hylif. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 300mg y dydd. Ar ôl dwy i bedair wythnos, gall eich meddyg drefnu i chi gael prawf gwaed i wirio eich bod y maint iawn o phenytoin gennych yn eich gwaed. Gallwch gymryd phenytoin gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o phenytoin, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o phenytoin gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i aildechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys y bendro, cyfog, anhawster cysgu a rhwymedd. Weithiau gallwch weld chwyddo yn y deintgig, acne, mwy o flew yn tyfu a'r croen yn garwau. Bydd yr esgyrn yn teneuo weithiau, ond gellir atal hyn drwy wneud yn siŵr eich bod yn cael digon o fitamin D. Gall eich meddyg roi ychwanegyn i chi ar bresgripsiwn.

Yn anaml iawn, gall phenytoin achosi effeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed a'r iau/afu. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o frech neu bothellu ar y croen, twymyn, dolur gwddf, wlserau yn y geg, cleisio neu waedu anesboniadwy, melynau ar y croen neu yng ngwyn y llygaid, neu boen sy'n effeithio ar yr abdomen (yr ardal o amgylch y stumog).

Os bydd y lefel phenytoin yn eich gwaed yn mynd yn rhy uchel gallwch ddatblygu symudiadau llygaid anarferol, golwg dwbl, lleferydd aneglur a dryswch. Dywedwch wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw un o'r symptomau hyn.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

A fydd angen i mi gael unrhyw brofion arbennig?

Efallai y bydd eich meddyg yn trefnu i chi gael profion gwaed cyn i chi ddechrau triniaeth gyda phenytoin ac yn ystod y driniaeth. Os gwneir hyn, y bwriad yw gwirio bod y dos o phenytoin yn iawn i chi ac nad yw'r feddyginiaeth yn achosi unrhyw broblemau i'r gwaed neu'r iau/afu.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda phenytoin?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw bod rhai meddyginiaethau'n rhyngweithio gyda phenytoin, gan gynnwys warfarin a dulliau hormonaidd o atal cenhedlu (i gael mwy o wybodaeth, gweler isod o dan y nodyn arbennig i fenywod). Gofynnwch i'ch meddyg teulu neu arbenigwr epilepsi am gyngor.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd phenytoin?

Gall alcohol waethygu rhai sgîl-ffeithiau phenytoin, fel y bendro a theimladau cysglyd. Gall hefyd newid faint o phenytoin sydd yn eich gwaed. Mae'n well osgoi alcohol tra'ch bod yn cymryd phenytoin.

Rhybuddion arbennig:

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes porffyrria gennych, anoddefiad lactos neu os ydych wedi dioddef erioed â phroblemau'r iau/afu, gan ei bod yn bosibl na fydd phenytoin yn addas i chi.

Brandiau gwahanol: argymhellir eich bod yn cadw at yr un brand o phenytoin gan y gall fod gwahaniaethau bach yn y brandiau gwahanol sydd ar gael. Os ydych yn pryderu, siaradwch â'ch meddyg neu'ch fferylllydd.

Nodyn arbennig i fenywod.

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Dulliau Atal Cenhedlu Hormonaidd: Mae phenytoin yn debygol o leihau effeithiolrwydd dulliau atal cenhedlu hormonaidd. O ganlyniad, gall fod angen newid y dos o'r bilsen atal cenhedlu gyfunol, a gall fod angen rhoi pigiadau depo atal cenhedlu bob deng wythnos yn lle bob deuddeng wythnos. Dylid defnyddio dulliau atal cenhedlu rhwystrol ychwanegol hefyd, o leiaf tan fod tri mis olynol wedi mynd heibio heb unrhyw waedu ysbeidiol.

Mae phenytoin yn debygol o atal y pats atal cenhedlu, y bilsen atal cenhedlu progesteron yn unig a mewnbliad atal cenhedlu rhag gweithio. Mae'r dulliau hyn yn anaddas felly os ydych hefyd yn cymryd phenytoin.

Mae phenytoin hefyd yn rhyngweithio gyda'r bilsen atal cenhedlu frys, gan olygu bod angen dosys uwch o'r bilsen atal cenhedlu frys. Mae hwn ar gael ar bresgripsiwn yn unig ac ni allwch ei brynu o'ch fferyllfa.

Mae'n bwysig nodi os rhowch y gorau i gymryd phenytoin, bydd yr effaith mae'n ei gael ar ddulliau atal cenhedlu hormonaidd yn parhau am rai wythnosau.

Gallwch gael mwy o wybodaeth gan eich meddyg teulu, eich arbenigwr epilepsi a'r sefydliadau Epilepsy Action a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi (gweler manylion y wefan isod).

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Pregabalin

(Lyrica[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth

Pam mae presgripsiwn am pregabalin wedi'i roi i mi?

Mae pregabalin yn cael ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd pregabalin?

Mae pregabalin ar gael fel capsïwlau. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 25mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd y dos hwn yn cael ei gynyddu fel y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfch, hyd at uchafswm dos arferol o 300mg ddwywaith y dydd. Gallwch gymryd pregabalin gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o pregabalin, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o pregabalin gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys y bendro, teimladau cysglyd, ceg sych ac anhwylder ar y stumog. Weithiau gallwch hefyd weld newidiadau o ran eich cof, eich cydbwysedd a'ch golwg. Mae gan nifer fach o bobl alergedd i pregablin. Dywedwch wrth eich meddyg ar unwaith os ydych yn datblygu brech, chwyddo ar yr wyneb neu anhawster anadlu.

Yn anaml iawn, gall pregabalin effeithio ar y pancreas neu'r arennau. Dylech ddweud wrth eich meddyg ar unwaith os byddwch yn datblygu poen cyson yn y stumog a chyfog, neu os sylwch eich bod yn pasio llawer llai o wrin.

Mae rhai pobl wedi sôn am iselder fel un o'r sgîl-ffeithiau, a dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda pregabalin?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferylllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd pregabalin?

Dylech geisio yfed cyn lleied o alcohol â phosibl tra'ch bod yn cymryd pregabalin.

Rhybuddion arbennig:

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes diabetes gennych, gan y gall pregabalin effeithio ar lefelau siwgr y gwaed.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd

camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Sodium Valproate

(Epilim[®], Episenta[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am sodium valproate wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio sodium valproate ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd sodium valproate?

Mae sodium valproate ar gael fel tabledi, capsïwlau, hylif neu mewn sachet. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 300 mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfch am gynyddu'r dos eto i uchafswm dos dyddiol o 2,500 mg fel arfer. Gallwch gymryd sodium valproate gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o sodium valproate, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o sodium valproate gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith ynglŷn â sut i aildddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys anhwylder neu boen yn y stumog (gellir helpu hynny trwy ei gymryd ar ôl bwyd), colli gwallt, cryndod a magu pwysau.

Yn anaml iawn, gall sodium valproate achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed, iau/afu a'r pancreas. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o frech neu bothellu ar y croen, twymyn, dolur gwddf, wlsrau yn y geg, cleisio neu waedu anesboniadwy, melynau ar y croen neu yng ngwyn y llygaid, neu boen sy'n effeithio ar y cefn neu'r abdomen (yr ardal o amgylch y stumog).

Mae sodium valproate yn effeithio ar y lefel amonia yng ngwaed rhai pobl. Mae arwyddion o hyn yn cynnwys teimlad o eisiau cyfogi, syrthni neu broblemau gyda'ch cydbwysedd. Dylech ddweud wrth eich meddyg os credwch y gall hyn fod yn effeithio arnoch chi.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

A fydd angen i mi gael unrhyw brofion arbennig?

Gall eich meddyg drefnu i chi gael profion gwaed cyn i chi ddechrau triniaeth gyda sodium valproate ac yn ystod y driniaeth. Os gwneir hyn, y bwriad yw gwirio nad yw'r feddyginiaeth yn achosi unrhyw broblemau i'r gwaed neu'r iau/afu.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda sodium valproate?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw bod rhai meddyginiaethau'n rhyngweithio gyda sodium valproate, gan gynnwys **warfarin**.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd sodium valproate?

Efallai y gwelwch fod effeithiau alcohol yn gryfach tra byddwch yn cymryd sodium valproate, am ei fod yn arafu'r broses o dreulio alcohol yn yr iau/afu. Os ydych yn dewis yfed alcohol fe'ch cynghorir i yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes porffyrria gennych, neu os ydych wedi dioddef erioed â phroblemau'r iau/afu, gan ei bod yn bosibl na fydd sodium valproate yn addas i chi.

Brandiau gwahanol: argymhellir eich bod yn cadw at yr un brand o sodium valproate gan y gall fod gwahaniaethau bach yn y brandiau gwahanol sydd ar gael. Os ydych yn pryderu, siaradwch â'ch meddyg neu'ch fferyllydd.

Nodyn arbennig i fenywod.

Beichiogrwydd: Rhaid i fenywod o oed magu plant ac sy'n cymryd sodium valproate drafod eu meddyginiaeth yn ofalus gyda'u harbenigwr cyn iddynt geisio mynd yn feichiog. Y cyngor cyfredol yw y dylai menywod sy'n cynllunio beichiogrwydd ond cymryd sodium valproate os nad oes unrhyw ddewis arall ar gael iddynt. Os ydych yn parhau i gymryd sodium valproate trwy gydol y beichiogrwydd, dylech gymryd y dos effeithiol lleiaf i reoli trawiadau. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg yn uwch os ydych yn cymryd sodium valproate yn ystod beichiogrwydd. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010

Tiagabine (Gabitril®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am tiagabine wedi'i roi i mi?

Mae tiagabine yn cael ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd tiagabine?

Mae tiagabine ar gael fel tabledi. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 5 - 10 mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn cynyddu'r dos hwn wedyn. Dylech gymryd tiagabine gyda diod o ddŵr a bwyd.

Os methwch ddos o tiagabine, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o tiagabine gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i aildechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Mae sgîl-ffeithiau ysgafn yn gyffredin yn ystod y mis cyntaf, ac maent yn tueddu lleihau gydag amser. Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau fel y bendro, blinder, nerfusrwydd, dolur rhydd, anhawster canolbwytio neu gryndod.

Mae effeithiau eraill llai cyffredin yn cynnwys dryswch, cleisio a newidiadau yn eich golwg. Dylech ddweud wrth eich meddyg os sylwch ar unrhyw arwyddion o'r rhain.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel ac yn gweld newidiadau mewn hwyliau pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda tiagabine?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw y gall rhai meddyginiaethau rhyngweithio gyda tiagabine.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd tiagabine?

Gall alcohol waethygu rhai sgîl-ffeithiau tiagabine, fel y bendro a theimladau cysglyd. Os ydych yn yfed alcohol fe'ch cynghorir i yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Alergeddau: Ni ddylech gymryd tabledi tiagabine os oes gennych anoddefiad lactos.

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes gennych unrhyw gyflyrau sy'n effeithio ar yr iau/afu, gan ei bod yn bosib na fydd tiagabine yn addas i chi.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod

gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, ***peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth*** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

www.epilepsy.org.uk

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

www.epilepsynse.org.uk

Epilepsi Cymru

www.epilepsy-wales.co.uk

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

029 20745066

Medi 2010

Topiramate

(Topamax[®])

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am topiramate wedi'i roi i mi?

Gellir defnyddio topiramate ar ei ben ei hun neu gellir ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd topiramate?

Mae topiramate ar gael fel tabledi neu fel capsïwl ysgeintio y gallwch ei agor ac ysgeintio'r cynnwys ar fwyd. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 25mg unwaith y dydd gyda'r nos. Efallai y bydd eich meddyg yn dweud wrthyfch am gynyddu'r dos i uchafswm arferol o 250mg ddwywaith. Gallwch gymryd topiramate gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o topiramate, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o topiramate gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Efallai y sylwch ar sgîl-ffeithiau sy'n cynnwys teimladau cysglyd, y bendro, colli pwysau, chwysu llai, merwino neu newidiadau yn eich hwyliau, y cof neu o ran meddwl.

Yn anaml iawn, gall topiramate achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed, y galon, y llygaid gan gynnwys glawcoma, a'r arennau, gan gynnwys cerrig yn yr arennau. Mae trawiad gwres yn gallu bod yn un o'r sgîl-ffeithiau prin hefyd. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o boen yn y llygaid, brech, twymyn, dolur gwddf neu wlsrau yn y geg yn gyson, cleisio neu waedu anesboniadwy, poen sy'n effeithio ar y cefn neu'r abdomen, neu boen wrth droethi.

I helpu atal sgîl-ffeithiau fel trawiad gwres a cherrig yn ffurfio yn yr arennau, mae'n bwysig gwneud yn siwr eich bod wedi'ch hydradu'n dda drwy yfed digon o ddŵr.

Dylech ddweud wrth eich meddyg os cewch gur pen/pen tost, teimladau cysglyd, llai o awydd bwyd a diffyg anadl, gan y gall hyn olygu lefel is na'r arfer o ficarbonad yn eich gwaed. Gall eich meddyg drin hyn yn hawdd.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda topiramate?

Dylech ddweud wrth meddyg neu'ch fferyllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw bod rhai meddyginiaethau'n rhyngweithio gyda topiramate, gan gynnwys dulliau hormonaidd o atal cenhedlu a all fod yn llai effeithiol wrth gymryd topiramate. Gofynnwch i'ch meddyg teulu neu arbenigwr epilepsi am gyngor.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd topiramate?

Mae'r gwneuthurwr yn eich cynghori i beidio ag yfed alcohol tra'ch bod yn cymryd topiramate gan nad yw'n glir a fydd alcohol yn effeithio ar y feddyginiaeth. Gall alcohol waethygu rhai sgîl-effeithiau, fel y bendro a theimladau cysglyd. Os ydych yn dewis yfed alcohol fe'ch cynghorir i yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os ydych wedi dioddef erioed o gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eich arennau, eich llygaid (yn enwedig glawcoma), y gwaed neu hylifau'r corff, neu os oes porfffyria neu anoddefiad swcros neu lactos gennych, gan ei bod yn bosibl na fydd topiramate yn addas i chi.

Nodyn arbennig i fenywod.

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, **peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Zonisamide (Zonegran®)

Bwriad y wybodaeth hon yw ategu ac nid disodli'r wybodaeth a ddarparwyd gan wneuthurwr y feddyginiaeth.

Pam mae presgripsiwn am zonisamide wedi'i roi i mi?

Mae zonisamide yn cael ei ychwanegu at eich meddyginiaeth gwrthepileptig arferol er mwyn lleihau trawiadau.

Sut ddylwn i gymryd zonisamide?

Mae zonisamide ar gael fel capsïwlau. Y dos cychwynnol arferol i oedolion yw 25 mg ddwywaith y dydd. Efallai y bydd eich meddyg yn cynyddu'r dos i uchafswm dos dyddiol arferol o 500mg y dydd. Gallwch gymryd zonisamide gyda bwyd neu heb fwyd.

Os methwch ddos o zonisamide, cymerwch ef cyn gynted ag y cofiwch, ond os bydd hyn yn digwydd yn agos at eich dos nesaf, peidiwch â chymryd y dos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf yn ôl yr arfer. Os methwch sawl dos o zonisamide gofynnwch am gyngor meddygol ynglŷn â sut i ailddechrau eich meddyginiaeth.

Beth yw'r sgîl-ffeithiau posibl?

Mae sgîl-ffeithiau ysgafn yn fwy cyffredin yn ystod y mis cyntaf, ac maent yn tueddu lleihau gydag amser. Efallai y sylwch ar deimladau cysglyd, newidiadau mewn hwyliau, y cof neu'r golwg. Mae adweithiau alergaidd yn effeithio ar ryw 5% o bobl sy'n cymryd zonisamide.

Yn anaml iawn, gall zonisamide achosi sgîl-ffeithiau mwy difrifol ar y croen, gwaed, iau/afu, y pancreas, y cyhyrau a'r arennau, gan gynnwys cerrig yn yr arennau. Gallwch ddioddef o drawiad gwres a cholli pwysau mewn achosion prin hefyd. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth eich meddyg ar unwaith os cewch unrhyw arwyddion o alergedd, brech, twymyn, dolur gwddf, wserau yn y geg, cleisio neu waedu anesboniadwy, poen yn y cefn neu'r abdomen, poen neu wendid yn y cyhyrau.

I helpu atal sgîl-ffeithiau fel trawiad gwres a cherrig yn ffurfio yn yr arennau, mae'n bwysig gwneud yn siwr eich bod wedi'ch hydradu'n dda drwy yfed digon o ddŵr a chadw'n oer mewn tywydd cynnes.

Dylech ddweud wrth eich meddyg os cewch gur pen/pen tost, teimladau cysglyd, llai o awydd bwyd a diffyg anadl, gan y gall hyn olygu lefel is na'r arfer o ficarbonad yn eich gwaed. Gall eich meddyg drin hyn.

Mae rhai pobl yn gweld eu bod yn dechrau teimlo'n isel pan fyddant yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer epilepsi, dylech ddweud wrth eich meddyg os yw hyn yn effeithio arnoch chi, neu os oes unrhyw sgîl-ffeithiau eraill yn peri pryder i chi.

Ydw i'n gallu cymryd meddyginiaethau eraill gyda zonisamide?

Dylech ddweud wrth eich meddyg neu'ch fferylllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, gan gynnwys y rhai rydych wedi'u prynu dros y cownter, a meddyginiaethau amgen. Y rheswm am hyn yw y gall rhai meddyginiaethau ryngweithio gyda zonisamide.

Ydw i'n gallu yfed alcohol tra'n cymryd zonisamide?

Mae alcohol yn gallu gwaethygu rhai sgîl-ffeithiau zonisamide, fel y bendro a theimladau cysglyd. Os ydych yn dewis yfed alcohol fe'ch cynghorir i yfed cyn lleied â phosibl.

Rhybuddion arbennig:

Cyflyrau meddygol eraill: dywedwch wrth eich meddyg os oes porffyrria gennych, alergedd i sylffonamidau neu unrhyw gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eich arennau, gwaed neu hylifau'r corff, gan ei bod yn bosibl na fydd zonisamide yn addas i chi.

Nodyn arbennig i fenywod:

Beichiogrwydd: Mae'n bwysig trafod eich meddyginiaeth gwrthepileptig gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol epilepsi os ydych yn ystyried mynd yn feichiog. Mae risg fach mewn unrhyw feichiogrwydd y bydd camffurfiad gan y baban. Mae'r risg ychydig yn uwch os oes gennych epilepsi neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau gwrthepileptig. Gall cymryd asid ffolig mewn dos o 5mg y dydd (ar bresgripsiwn gan eich meddyg) helpu i leihau'r risg. Bydd trafod gyda'ch arbenigwr epilepsi cyn i chi geisio mynd yn feichiog yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i reoli'ch trawiadau yn ystod beichiogrwydd, gyda'r risg leiaf i'r baban.

Os byddwch yn mynd yn feichiog yn annisgwyl, ***peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth*** gan y bydd hyn yn peryglu eich iechyd chi ac iechyd eich baban. Gofynnwch am gyngor ar unwaith gan eich arbenigwr epilepsi.

Peidiwch â rhoi'r gorau i gymryd eich meddyginiaeth heb gyngor eich meddyg, gan y gall hyn achosi trawiadau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

Epilepsy Action

Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Epilepsi

Epilepsi Cymru

Uned Epilepsi Cymru (nyrs arbenigol)

www.epilepsy.org.uk

www.epilepsynse.org.uk

www.epilepsy-wales.co.uk

029 20745066

Medi 2010